# DANGOSFWRDD SGILIAU A MENTORA
## Ebrill – Gorffennaf 2019

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

### Statws RAG

■ Coch: Tu ôl i'r targed ■ Melyn: Bron â chyrraedd y targed ■ Gwyrdd: Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed

### Hyfforddiant ■

Dyma ddadansoddiad fesul categori hyfforddiant:

| Categori 1 | Nifer o achosion hyfforddiant sydd wedi'u cwblhau |
|---|---|
| Categori 1 – Gwella Busnes | 86 |
| Categori 2 – Technegol | 118 |
| Categori 3 – Defnyddio Peiriannau ac Offer | 69 |
| CYFANSWM | 273 |


Yn ystod y cyfnod, derbyniwyd, **619** o geisiadau ar gyfer hyfforddiant. O'r rhain, cafodd 27 eu canslo, a gwrthodwyd 28. Cafodd 3 o'r rhain eu gwrthod gan nad oedd yr ymgeisydd wedi cwblhau'r cwrs e-ddysgu Iechyd a Diogelwch ar lein (sy'n hanfodol ar gyfer y rhai sy'n dymuno ymgeisio ar gyfer cwrs yng Nghategori 3, Defnyddio Peiriannau ac Offer).

Y cyrsiau mwyaf poblogaidd yn ystod y cyfnod ymgeisio oedd:


**Categori 1:**
- Cynllunio a Datblygu Busnes
- Marchnata eich Busnes



**Categori 2:**
- DIY AI



**Categori 3:**
- Defnyddio Tryc Codi Telesgopig ar Dir Garw
- Cerbydau ATV gan gynnwys llwythi ac offer llusgo



### E-ddysgu


Yn ystod y cyfnod, cwblhawyd **408** o gyrsiau, 168 ohonynt yn gwrs Iechyd a Diogelwch. Tu hwnt i hynny, roedd y cyrsiau mwyaf poblogaidd yn cynnwys:

| Teitl y Cwrs | Nifer y Cyrsiau a Gwblhawyd |
|---|---|
| Systemau Pori | 12 |
| Sheep Lameness | 13 |
| Rheoli'r Borfa | 12 |
| Strwythur y Pridd | 11 |

### Ystadegau Hyfforddiant


Mae'r dadansoddiad a nodir ar y graff isod yn dangos nifer y ceisiadau hyfforddiant a hawliwyd gan gleientiaid fesul ystod oedran.

Nifer y ceisiadau a hawliwyd yn ôl oedran




Mae'r dadansoddiad a nodir yn y graff isod yn dangos nifer y ceisiadau hyfforddiant a hawliwyd gan gleientiaid fesul sir.


Nifer y ceisiadau a hawliwyd fesul sir





### Academi Amaeth ■

Dewiswyd **36** aelod ar gyfer Dosbarth 2019.

Demograffeg Oedran




Sector





Cynhaliwyd derbyniad yn y Sioe Frenhinol i gyhoeddi enwau Dosbarth 2019. Cliciwch yma i ddarllen am aelodau'r Academi eleni.

### Agrisgôp ■

**62** GRŴP GWEITHREDOL gyda **531** AELOD yn mynychu cyfanswm o **104** O GYFARFODYDD

Pynciau a drafodwyd:




DENU NAWDD AR GYFER SIOEAU A DIGWYDDIADAU AMAETHYDDOL

YSBRYDOLI SGILIAU ARWEINYDDIAETH

AGWEDDAU YMARFEROL O FFERMIO CYFRAN

FFERMWYR DROS ADDYSG

MARCHNATA MÊL A CHADW GWENYN YN FASNACHOL



HYFFORDDI CŴN DEFAID



### Astudiaeth Achos

**Ffermwyr yn agor eu ffermydd i ysgolion i ddylanwadu ar ddewisiadau bwyd y genhedlaeth nesaf**

Mae ffermwyr sy'n bryderus bod negeseuon yn erbyn ffermio, sy'n cael eu hyrwyddo gan grwpiau ymgyrchu, yn dylanwadu ar eu cenhedlaeth nesaf o gwsmeriaid, yn brwydro'n ôl drwy wahodd ysgolion draw i'w ffermydd.

Mae cynllun Agrisgôp Cyswllt Ffermio wedi casglu ynghyd 12 o ffermwyr o ogledd-ddwyrain Cymru sydd â diddordeb mewn addysgu plant a'r cyhoedd ehangach ynglŷn ag o le mae eu bwyd yn dod. Fe wnaethant ffurfio'r Grŵp Addysg Ffermio a Chefn Gwlad yn gynharach eleni a, dan ofal arweinydd Agrisgôp Gwen Davies, maen nhw wedi cymryd camau breision ymlaen.

Bu'r aelodau yn rhan o'r Dydd Sul Fferm Agored ac maent hefyd wedi gwahodd ysgolion draw i'w ffermydd.



Cliciwch yma i ddarllen mwy.

## Cynllun Datblygu Personol

Yn ystod y rhaglen, mae cyfanswm o **4729** o gleientiaid wedi cwblhau cynllun datblygu personol

Yn ystod y cyfnod yma, crëwyd **350** o gynlluniau datblygu personol newydd

## Cyfnewidfa Rheolaeth

### Cyfnewidfa Rheolaeth Alec Cowan, Mai 2019

**Pwnc:** Buchesi Godro Robotig
**Gwlad:** Yr Iseldiroedd



Yn ystod mis Mai, teithiodd Alec Cowan i'r Iseldiroedd i gwblhau ei gyfnewidfa rheolaeth. Ei nod oedd cael trosolwg o'r broses o odro gwartheg gyda robotiaid, o safbwynt ymarferol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar leihau'r defnydd o driniaethau gwrthfiotig. Dewisodd ymweld â'r Iseldiroedd gan fod 25% o'r ffermydd llaeth yno'n defnyddio robotiaid i odro, o'i gymharu â 2-3% yn y DU.


Bu Alec yn ymweld â 4 fferm gan gynnwys cynhyrchwyr llaeth. Yn ogystal â chael gwell dealltwriaeth o odro robotig, cafodd Alec gyfle i ddysgu mwy am iechyd y fuches.

Cliciwch yma i ddarllen adroddiad Alec.

## Mentora

**393** O FENTAI WEDI CAEL EU MENTORA

**81** MENTAI NEWYDD



**140%** O DARGED Y RHAGLEN WEDI'I GYFLAWNI

Y pynciau mwyaf poblogaidd ar gyfer mentora yn ystod y cyfnod yma oedd:













### Mentoriaid newydd a benodwyd



Barbara Hughes – Arallgyfeirio, Tyfu Pwmpenni a Llaeth



David Brooke – Llaeth a newydd ddyfodiaid



Gary Rees – Arallgyfeirio, Garddwriaeth ac Ychwanegu Gwerth



Gethin Jones – Iechyd a Diogelwch



James Powell – Rheoli Tir Glas, Magu Lloi a Datblygiad Personol



Jim Bowen – Ffermio gofal, Arallgyfeirio ac Adfywio Cymunedau



Llyr Jones – Iechyd a Diogelwch



Matt Swarbrick – Arallgyfeirio, Ffermio llaeth micro, Paramaethu, Rheolaeth Holistaidd, Amaethgoedwigaeth, Twristiaeth



Phil Morgan – Rheoli Coetir, Coedwigaeth Barhaol a Phlannu o'r Newydd



Rhidian Glyn – Pori Cylchdro, Magu Heffrod ar Gontract, Newydd Ddyfodiaid, a Chynllunio Busnes Fferm

Cheryl Davies – Iechyd a Diogelwch, Ymgysylltu gyda'r gweithwyr a Chynllunio Busnes

Robert Jones – Magu Lloi